NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

CAIS AM LE MEWN
YSGOL UWCHRADD YM MIS MEDI

2023

ARABIC - ريسفت يف ةدعاسم وأ ،ةريبكلا ةعابطلا وأ ةءارقلل ليارب ةقيرط لاثملا ليبس ىلع ،رخآ لكش يأ يف تاموعلعملا هذه بغرت تنك اذإ لاصتالا ينورتكلإلا ديربلا قيرط نع **01633 656656** ىلع ةسردملا قيرف لوبقلا وأ نجري ،ةفلتخم ةغلب **school.admissions@newport.gov.uk**

CANTONESE - 如果您希望以其他格式提供這些信息, 例如盲文或大字印刷，或以不同語言解釋幫助，請致電 **01633 656656** 或通過電子郵件聯繫學校招生團隊 **school.admissions@newport.gov.uk**

CZECH - Pokud byste chtěli tuto informaci v jiném formátu, například Braillovo písmo nebo velký tisk, nebo pomoc s výkladem v jiném jazyce, obraťte se na školu Přijímací tým na **01633 656656** nebo e-mailem **school.admissions@newport.gov.uk**

ENGLISH - If you would like this information in any other format, for example braille or large print, or help with interpretation in a different language, please contact the School Admissions Team on **01633 656656** or by emailing **school.admissions@newport.gov.uk**

HUNGARIAN - Ha bármilyen más formátumban, például Braille-írással vagy nagyméretű nyomtatásban szeretné megkapni ezt az információt, vagy más nyelven történő tolmácsolást igényel, kérjük, vegye fel a kapcsolatot a Beiratkozási csoporttal a a **school.admissions@newport.gov.uk** e-mail címen.

ITALIAN - Se desideri queste informazioni in qualsiasi altro formato, ad esempio in braille o caratteri grandi, o aiuto nell'interpretazione in una lingua diversa, contatta il Personale di Ammissione alle Scuole allo **01633 656656** o inviando un'e-mail a **school.admissions@newport.gov.uk**

MANDARIN - 如果您希望以其他格式提供这些信息, 例如盲文或大字印刷, 或以不同语言解释帮助, 请致电 **01633 656656** 或通过电子邮件联系学校招生团队, **school.admissions@newport.gov.uk**

POLISH - Jeśli chcesz te informacje w innym formacie, np. Braille'a czy duży druk, lub pomoc przy interpretacji w innym języku,prosimy o kontakt z Zespołem przyjęć do szkół na **01633 656656** lub wysyłając **school.admissions@newport.gov.uk**

PORTUGUESE - Se você gostaria de ter esta informação em qualquer outro formato, por exemplo braille ou letras grandes, ou ajuda com a interpretação em um idioma diferente, por favor entre em contato com a Equipe de 'Admissões Escola' pelo telefone **01633 656656** ou pelo e-mail **school.admissions@newport.gov.uk**

ROMANIAN - Dacă doriţi informaţii în orice alt format, de exemplu, de imprimare Braille sau mare, sau de ajutor cu interpretarea într-o altă limbă, vă rugăm să contactaţi Admitere echipa de şcoală pe **01633 656656** sau prin email **school.admissions@newport.gov.uk**

RUSSIAN - Если Вам нужна эта информация в любом другом формате, например в шрифте Брайля или крупной печати, или помощь при устном переводе на другой язык, пожалуйста, свяжитесь с школьной комиссией по телефону **01633 656656** или по электронной почте **school.admissions@newport.gov.uk**

SLOVAK - Ak by ste chceli túto informáciu v inom formáte, napríklad Braillovo písmo alebo veľká tlač, alebo pomoc s výkladom v inom jazyku, obráťte sa na školu Prijímacie tím na **01633 656656** alebo e-mailom **school.admissions@newport.gov.uk**

SPANISH - Si desea esta información en cualquier otro formato, por ejemplo, braille o letra grande, o ayuda con la interpretación en otro idioma, comuníquese con el Equipo de Admisión Escolar al **01633 656656** o envíe un correo electrónico a **school.admissions@newport.gov.uk**

TURKISH - Başka bir formatta bu belgeyi almak isterseniz, örneğin farklı bir dilde yahut braille veya büyük harflerle, bu numarayi arayin **01633 656656** veya **school.admissions@newport.gov.uk** electronic mail gönderin lütfen.

URDU - اگر آپ کو کسی بھی دوسرے فارمیٹ میں یہ معلومات چاہئے ہیں، تو مثال کے طور پر ایک مختلف زبان میں تشریح کے ساتھ بریل یا بڑے پرنٹ، یا مدد ای میل کرکے اسکول داخلہ ٹیم سے رابطہ کریں **school.admissions@newport.gov.uk** پر یا **01633 656656**

WELSH - Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft braille neu brint bras, neu help gyda chyfieithu i iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Derbyn i Ysgolion drwy ffonio **01633 656656** neu e-bostio **school.admissions@newport.gov.uk**

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Ydych chi wedi ystyried gwneud eich cais ar lein ar **www.newport.gov.uk/schooladmissions**

- Atebwch yr holl gwestiynau gan sicrhau eich bod yn llofnodi'r ffurflen yn y man a ddarperir.
- Darllenwch y Polisi Derbyn i Ysgolion 2023/2024 a'r nodiadau esboniadol atodedig cyn llenwi'r ffurflen hon.
- Am gymorth gyda'r cais hwn e-bostiwch **school.admissions@newport.gov.uk** neu ffoniwch **01633 656656**
- Gellir gweld manylion eich ysgol ddalgylch ar **www.newport.gov.uk/schooladmissions**

Adran A: Manylion y Plentyn

Enw cyfreithiol llawn: _____ gwryw / benyw

Enw llawn a dewis (os yn wahanol i'r uchod): _____

Dyddiad geni: _____ (rhowch gopi o dystysgrif geni'r plentyn)

Cyfeiriad cartref: _____

_____ Cod Post: _____

Nodwch enw ysgol bresennol eich plentyn: _____

Ydy eich plentyn ☐ yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (y gwasanaethau cymdeithasol) ☐ yn Blentyn a oedd yn arfer Derbyn Gofal(y gwasanaethau cymdeithasol) ☐ Ddim yn berthnasol

Ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal, nodwch o dan pa Awdurdod Lleol _____

Enw llawn y Gweithiwr Cymdeithasol _____ Llofnod*: _____

Ar gyfer Plentyn a oedd yn arfer Derbyn Gofal cyflwynwch dystiolaeth gefnogol, fel Tystysgrif Mabwysiadu

** Fel y Gweithiwr Cymdeithasol i'r plentyn hwn sy'n Derbyn Gofal, rwy'n cadarnhau, ar ôl ystyried y cais yn llawn, mai'r ysgol dewis cyntaf a enwir yn Adran C yw'r fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y plentyn hwn.*

Adran B: Manylion yr Ymgeisydd

Rhiant / Rhieni: _____

Perthynasâ'rplentyn: _____

A ymgynghorwyd â'r holl bartïon sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn hwn ac ydynt wedi cadarnhau cytundeb llawn â'r cais?
Do ☐ Naddo ☐

Os Na, oes gorchymyn llys yn ei le neu unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol sy'n eich atal rhag gwneud y cais? Oes ☐ Nac Oes ☐

A ydych yn derbyn y Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn hwn? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Cyfeiriad cartref (os yn wahanol i'r uchod): _____

_____ Cod post: _____

Rhif ffôn cartref: _____ Rhif ffôn symudol: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

Beth yw iaith eich cartref? _____

A oes unrhyw orchmynion llys ar waith / hyd nes y bydd achos cyfreithiol yn yr arfaeth yn eich atal rhag gwneud y cais hwn:
Oes/Nac Oes
Os Felly, rhowch fanylion: _____
Os hoffech i'r cais hwn gael ei drafod gydag unrhyw bartïon eraill, rhowch enw a pherthynas â'r plentyn:
_____

Adran C: Dewisiadau ysgol

A yw eich dewis o ysgol yn: Cyfrwng Saesneg ☐ Cyfrwng Cymraeg ☐ Yn seiliedig ar ffydd ☐

(Efallai y bydd angen i chi ymgeisio i awdurdod derbyn arall - gweler y canllawiau)

Nodwch eich dewis ysgol(ion) (yn ôl trefn eich dewis). Mae croeso i chi odi mwy nag un dewis.

1. _____

2. _____

3. _____

Adran CH: Anghenion ychwanegol

A oes gan y plentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig/ Cynllun Datblygu Unigol sy'n enwi ysgol?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, pa ysgol a enwir? _____

Nodwch amgylchiadau meddygol arbennig eich plentyn, os o gwbl: _____

Ystyrir y wybodaeth y gofynnwyd amdani fel data categori arbennig ac mae angen eich caniatâd arnom i brosesu'r wybodaeth hon. Sylwer, byddwn yn parhau i brosesu eich cais os na fyddwch yn caniatáu, fodd bynnag, ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw ddibenion eraill.

☐ Ticiwch y blwch hwn i gydsyniot

Cewch chi dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy gysylltu â **school.admissions@newport.gov.uk** neu drwy ffonio Cyngor Dinas Casnewydd ar **01633 656656**.

Adran D: Brawd neu chwaer perthnasol

A oes gan eich plentyn frawd neu chwaer yn unrhyw un o'r ysgolion yr ydych wedi'u rhestru? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Neu a ydych hefyd yn gwneud cais ar gyfer plentyn arall? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Rhowch fanylion y brawd/chwaer perthnasol sydd agosaf mewn oed i'r plentyn y gwneir y cais ar ei gyfer:

Enw _____ Dyddiad geni _____ Ysgol _____

Os oes gan eich plentyn frawd neu chwaer perthnasol ond nad ydych yn son amdano/amdani yma, ni fydd y Tim Derbyn i Ysgolion yn gallu cymryd y brawd hwn/chwaer hon i ystyriaeth wrth benderfynu ar eich cais.

Adran Dd: Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na

Ydy'r plentyn hwn yn blentyn Aelodau o Lluoedd y du neu Weision y Goron eraill (gan gynnwys diplomyddion)? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os felly, manylwch _____

Ydy'r plentyn hwn yn un o enedigaeth luosog (e.e. gefeilliaid neu dripledi)? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Adran E: Tystiolaeth gefnogi (nodwch bob datganiad perthnasol)

Hoffai Cyngor Dinas Casnewydd ofyn i chi am eich caniatâd i wirio eich cofnod Treth Gyngor fel prawf o'ch cyfeiriad gartref. Sylwch, byddwn yn parhau i brosesu eich cais os na rowch eich caniatâd, fodd bynnag, byddwn yn gofyn am dystiolaeth arall gennych. Ni fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw ddiben arall.

Cewch chi dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd trwy gysylltu â **school.admissions@newport.gov.uk** neu drwy ffonio Cyngor Dinas Casnewydd ar **01633 656656**.

Caiff Cyngor Dinas Casnewydd wirio fy nghofnod Treth Gyngor fel prawf o'm cyfeiriad;

☐ Ticiwch y blwch hwn i gydsynio. Fy nghyfeirnod ar gyfer Treth y Cyngor Dinas Casnewydd yw _____

☐ Atodaf gopi o dystysgrif geni fy mhlentyn, cerdyn meddygol GIG neu basport dilys.
PEIDIWCH AG ANFON DOGFENNAU GWREIDDIOL

☐ Mae tystiolaeth berthnasol arall ynghlwm (nodwch) _____

Adran F: Gwybodaeth bwysig i'w nodi

Sicrhewch fod eich ffurflen gais wedi'i llenwi yn cael ei chyflwyno i'r: **Tîm Derbyn Ysgolion, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR** erbyn **23 Tachwedd 2022**. Y rheswm dros hyn yw sicrhau y caiff penderfyniad ei ddosbarthu i chi cyn **1 Mawrth 2023** an pellaf.

Rydym yn argymell eich bod yn cadw copi o'r ffurflen wedi'i llenwi ar gyfer eich cofnodion eich hun.

Datganiad
Rwyf wedi darllen y Wybodeth yn y Polosi Derbyniadau i Ysgolion ac yn deall bod y cais yn dibynnu ar y telerau ac amodau a amlinellir yn y ddogfen hon ac felly nid oes sicrwydd y caiff fy mhlentyn le yn fy newis ysgol.

Cadarnhaf fod gen i gyfrifoldeb rhiant dros y disgybl a fy mod i wedi cael cytundeb gan bob

Arwyddwyd: _____

Enw llawn (PRINTIWCH): _____ **Dyddiad:**_____

Ceisiadau â Chymorth
Rhowch eich enw a'ch manylion cyswyllt isod os ydych wedi cwblhau'r ffurflen gais hon ar ran yr ymgeisydd. Os mai dyma'r achos, mae dal angen i'r ymgeisydd lofnod'r datganiad uchod i gardarnhau ei fod yn deall telerau ac amodau'r cais.

Enw: _____

Rhif cyswllt: _____

Argymhellwn ichi gadw copi o'r ffurflrn wedi'i chwblhau i'ch cofnodion chi: _____

_____

Adran A: Manylion y Plentyn

Enw
Efallai y caiff eich plentyn ei adnabod gan un enw ond mae ganddo enw cyfreithiol gwahanol. Yr enw cyfreithiol yw'r enw a nodwyd ar y dystysgrif geni (oni bai eich bod wedi newid enw'r plentyn yn gyfreithiol ers ei eni. Mewn achosion o'r fath, a wnewch chi gyflwyno copi o'r papurau cyfreithiol ar gyfer newid enw). Noder y bydd y cyngor yn cyfeirio at eich plentyn gan ei enw cyfreithiol at ddibenion y cais hwn.

Cyfeiriad
Bydd y Cyngor yn ystyried mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r prif leoliad preswylio dilys lle mae'r plentyn yn preswylio'n barhaol gyda'i riant/gwarcheidwaid cyfreithiol ar y dyddiad cau a nodwyd, ac nid yw'n golygu'r cyfeiriad lle mae perthnasau neu eraill yn gofalu am y plentyn. Os yw plentyn yn preswylio gyda pherthnasau neu eraill am resymau heblaw gwarcheidwaeth gyfreithiol, ni fydd y cyfeiriad hwnnw'n cael ei ystyried at ddibenion dyrannu. Lle mae rhieni wedi rhannu cyfrifoldeb am y plentyn a bod y plentyn yn treulio'r un faint o amser gyda'r naill riant a'r llall yn ystod yr wythnos ysgol, lleoliad preswylio'r rhiant sy'n derbyn y budd-dal plant fydd yn cael ei ystyried fel cartref y plentyn at ddibenion dyrannu. Bydd y cyngor yn cyflawni gwiriadau preswylio trwyadl ac mae'n cadw'r hawl i ofyn am gadarnhad annibynnol o gyfeiriad y plentyn Mae'n bosibl y gofynnir i ymgeiswyr ddarparu dogfennau ychwanegol i gefnogi eu cais.

Bydd y cyngor yn defnyddio'r cyfeiriad cartref i benderfynu ysgol y dalgylch at ddibenion dyrannu. Fodd bynnag, noder nad oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn derbyn lle mewn dosbarth ysgol. Caiff y disgyblion sy'n byw o fewn ardal dalgylch ysgol flaenoriaeth dros blant s y'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

Sylwer, gellid gwrthod ceisiadau a gyflwynir heb ddigon o dystiolaeth os nad oes modd dilysu a dyfarnu blaenoriaeth o dan y meini prawf perthnasol.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yn hysbysu'r tîm derbyn ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys newid cyfeiriad ar ôl cyflwyno'r cais. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon cyfeiriad cywir ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniad y cais os yw hyn ar ôl y dyddiad cau. Dim ond os yw'r plentyn yn byw yno ar y dyddiad cau a bod tystiolaeth foddhaol yn cael ei chyflwyno i gadarnhau hyn y gellir ystyried unrhyw gyfeiriad newydd wrth benderfynu ar ganlyniad cais. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, ac amseriad y wybodaeth a ddarperir, gall newidiadau o'r fath effeithio ar y broses ymgeisio.

Ysgol bresennol
Nodwch fod yn rhaid i'r cais hwn gael ei wneud gan oedolyn sydd a chyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Nid cyfrifoldeb y tim derbyn i ysgolion yw penderfynu pwy sydd a chyfrifoldeb rhiant. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r cyngor ofyn am dystiolaeth o hyn.

Plant sy'n derbyn gofal / plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
Pan fydd y cais ar gyfer plentyn sydd o dan ofal awdurdod lleol, mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol priodol lofnodi'r ffurflen gais i ddilysu'r cais a chadarnhau pa mor addas yw'r ysgol a ddewiswyd. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth i gadarnhau statws plentyn sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Bydd tystiolaeth fel y Dystysgrif Mabwysiadu yn ofynnol i gadarnhau statws plant a oedd yn arfer derbyn gofal.

Adran B: Manylion yr Ymgeisydd

Noder bod yn rhaid i'r cais hwn gael ei gyflwyno gan oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Nid cyfrifoldeb y tîm derbyn ysgolion yw penderfynu cyfrifoldeb rhiant. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r cyngor ofyn am dystiolaeth o hyn.

Lle y caiff cyfrifoldeb rhiant ei rannu yn gyfartal, bydd y cyngor yn gofyn i rieni'r plentyn benderfynu pa riant ddylai gyflwyno'r cais. Os nad oes modd i'r rhieni gytuno ar hyn ac nid ydynt wedi derbyn gorchymyn llys sy'n nodi pwy ddylai gyflwyno'r cais, bydd y cyngor yn derbyn cais gan riant sy'n derbyn y taliadau budd-dal plant ar gyfer y plentyn. Os oes gorchymyn preswyl mewn lle sy'n ymwneud â'r plentyn y mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer, mae'n rhaid i gopi o'r gorchymyn gael ei gyflwyno â'r cais.

Lle y mae person arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, yn hytrach na'r fam neu'r tad, bydd angen i dystiolaeth o hyn gael ei chyflwyno er mwyn cefnogi'r cais. Un math o dystiolaeth dderbyniol at y diben hwn fyddai copi o unrhyw ddogfen gyfreithiol sy'n dyfarnu cyfrifoldeb rhiant i'r oedolyn sy'n cyflwyno'r cais.

Adran C: Dewisiadau ysgol

Cyn dewis pa feithrin i wneud cais amdani dylech ddarllen y Polisi Derbyn i Ysgolion sy'n rhestru'r holl ysgolion yng Nghasnewydd a gallwch fynd i **www.newport.gov.uk/schooladmissions** i gael gwybod beth yw'ch ysgol ddalgylch chi. Wrth wneud cais argymhellir bod o leiaf dair ysgol o ddewis yn cael eu henwi i roi mwy o gyfle o sicrhau lle sy'n dderbyniol, gan fod galw mawr am leoedd mewn rhai ardaloedd yng Nghasnewydd. Nid yw mynegi dewis yn warant o le yn yr ysgol honno, hyd yn oed os mai hi yw'r ysgol yn y dalgylch. Fodd bynnag, mae mynegi dewis yn rhoi blaenoriaeth i'r plentyn dros blant rhieni nad ydyn nhw wedi dewis yr ysgol honno. Os na fyddwch yn dewis eich ysgol ddalgylch, caiff ymgeisydd o'r tu allan i'r dalgylch sydd yn dewis yr ysgol flaenoriaeth uwch na chi fel rhywun sydd yn byw yno.

Bydd angen ichi ystyried hefyd sut y bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol gan na fydd o reidrwydd yn gymwys am gludiant i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddisgyblion oedran uwchradd sy'n byw 3 filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. At hynny, mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn dweud bod plentyn yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ysgol arall os yw hon yn agosach na'r ysgol ddalgylch ac ar yr amod y bodlonir y pellter cymhwyso. Gellir gweld y polisi llawn ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn y Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni.

Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir / Ysgolion ffydd
Os hoffech wneud cais am le mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol ffydd (e.e. Ysgol Uwchradd Babyddol Sant Joseff), cysylltwch a hwy'n uniongyrchol i wneud cais. Ni fydd y tim derbyn i ysgolion yn gallu ystyried unrhyw gais am yr ysgol hon gan mai'r corff llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn. Mae gan Ysgol Sant Joseff eu polisi derbyn eu hunain a gofynnir i rieni i gysylltu a'r ysgol am fanylion llawn y trefniadau derbyn. Nodwch, fodd bynnag, gan ei bod yn ofynnol i'r holl Awdurdodau Derbyn mewn ardal awdurdod lleol gydweithio tuag at set gyffredin o ddyddiadau cau a dyddiadau cynnig, y cedwir at amserlen gytunedig y cyngor ym mhob achos.

Dylai ymgeiswyr sydd am fynegi dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion cymunedol gwblhau cais Cyngor Dinas Casnewydd a'r cais a gyflenwir gan yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir y maent yn gwneud cais iddi, gan nodi trefn eu dewisiadau yn glir yn y naill gais a'r llall. Mae protocolau rhannu gwybodaeth yn bodoli rhwng y Cyngor a'i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i nodi plant y mae mwy nag un cais wedi'i wneud ar eu cyfer. Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr hynny nad ydynt yn nodi trefn ddewisol ac yn gofyn iddynt gadarnhau hyn cyn penderfynu ar y cais.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg
Os ydych yn dewis cael addysg gyfrwng Cymraeg, dangoswch hyn ar y ffurflen trwy dicio'r blwch i roi gwybod i'r tîm derbyn. Yng Nghasnewydd mae tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, i gyd a meithrinfeydd, ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ewch i **www. newport.gov.uk** neu yn y polisi derbyniadau i ysgolion 2022/2023. Nid oes rhaid i ddisgyblion a hoffai gael addysg cyfrwng Cymraeg fod yn siarad Cymraeg yn rhugl er mwyn cael eu derbyn i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ewch i **www.newport.gov.uk/becomingbilingual** am fwy o wybodaeth.

Ysgolion cymunedol

Mae'r ffurflen gais hon yn galluogi ymgeiswyr i ddewis unrhyw ysgol uwchradd gymunedol yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw warant o le mewn ysgol. Os yw nifer y ceisiadau i ysgol yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, neu'r un nifer, bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn.

Os yw nifer y ceisiadau i ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff y wybodaeth mae ymgeiswyr yn ei rhoi ei defnyddio i drefnu blaenoriaeth plentyn am le, yn unol a'r meini prawf canlynol lle bo gormod o alw. Os yw Ysgol wedi'i henwi ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/ Cynllun Datblygu Unigol, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol a enwir cyn bod y meini prawf lle bo gormod o alw yn cael eu cymhwyso i'r ceisiadau a geir.

1. Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol.
2. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol.
3. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol.
4. Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch.
5. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac sy'n gwneud cais am resymau meddygol.
6. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol.
7. Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch.

Ar ol ystyried y categoriau uchod, neu os yw nifer y ceisiadau mewn unrhyw un o'r categoriau uchod yn fwy na'r nifer derbyn cyhoeddedig, caiff blaenoriaeth ei seilio ar y rheiny sy'n byw agosaf i'r dewis ysgol. (Gweler y Polisi Derbyn i Ysgolion am fanylion llawn)

Caiff pob dewis ei ystyried yn gydradd â'i gilydd a byddwch chi'n derbyn cynnig lle yn yr ysgol sydd wedi'i rancio'r uchaf ar eich rhestr ddewisiadau ac sydd â lle ar gael. Bydd unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ol y dyddiad cau yn cael eu prosesu dim ond ar ol i leoedd gael eu dyrannu ar gyfer y ceisiadau a ddaeth i law yn brydlon, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn cynyddu'r posibilrwydd na chewch le yn eich dewis Ysgol.

Pan gaiff holl ddewisiadau'r ymgeisydd eu gwrthod, a'i fod yn preswylio yng Nghasnewydd, bydd lle arall yn yr ysgol dalgylch yn cael ei neilltuo i'r plentyn os bydd lleoedd ar gael. Os na fydd yr ysgol dalgylch ar gael chwaith, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am yr ysgolion sydd â lleoedd ar gael ac yn cael gwahoddiad i fynegi dewisiadau ychwanegol i'w hystyried o dan drefniadau *ceisiadau hwyr a dewisiadau ychwanegol* y Cyngor. Dylai ymgeiswyr aflwyddiannus nad ydynt yn preswylio yng Nghasnewydd gysylltu â'u hawdurdod lleol cartref i gael ysgol arall neu gyflwyno dewisiadau ychwanegol ar gyfer ysgolion eraill yng Nghasnewydd.

Dylai ymgeiswyr nodi, yn unol a Pholisi'r Cyngor ar Gludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol, mai hwy fydd yn gyfrifol am yr holl gostau a threfniadau cludiant os nad yr ysgol ddalgylch yw'r dewis ysgol, neu os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na 3 filltir os yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol ddalgylch.

Derbyn i ysgol y tu allan i Gasnewydd:
I wneud cais i ysgol y tu allan i Gasnewydd, dylech wneud cais yn uniongyrchol i'r awdurdod derbyn perthnasol.

Ysgolion annibynnol:
Dylid gwneud ceisiadau i fynychu ysgol annibynnol yn uniongyrchol i'r ysgol honno. Dylai rhieni plant sy'n byw yng Nghasnewydd wneud cais am le mewn ysgol yng Nghasnewydd hefyd rhag ofn na fydd y cais i'r ysgol annibynnol yn llwyddiannus, a dylent nodi ar eu ffurflenni cais eu bod wedi gwneud cais am le mewn ysgol annibynnol.

Pobl nad ydynt yn preswylio yng Nghasnewydd:
Dylai ymgeiswyr sy'n byw mewn ardaloedd (cyngor) awdurdodau eraill sydd am i'w plant fynd i ysgol yng Nghasnewydd wneud cais trwy Gyngor Dinas Casnewydd yn unol â graddfeydd amser cytûn y Cyngor. Sylwer, gan na all y Cyngor fynd at gofnodion Treth Gyngor preswylwyr mewn ardaloedd eraill, bydd rhaid darparu tystiolaeth wedi'i llungopïo o breswylio i gefnogi ceisiadau o'r fath.

Adran D: Anghenion ychwanegol

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Rhoddir blaenoriaeth i blant sydd a datganiad ffurfiol o Anghenion Addysgol Arbennig/ Cynllun Datblygu Unigol DIM OND os yw'r ysgol y mae'r rhiant yn gwneud cais iddi wedi'i henwi yn natganiad Cyngor Dinas Casnewydd.

Anghenion meddygol
Ar gyfer ceisiadau lle y caiff dewis ei seilio ar resymau meddygol mae'n rhaid bod y cais wedi'i gefnogi gan adroddiad gan ymgynghorydd meddygol, sydd wedi'i dderbyn gan y rhieni, sy'n nodi'r fantais feddygol pe bai'r plentyn yn mynychu'r dewis ysgol.

Noderni ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn. . Noder mai dim ond os oes lleoedd ar gael y rhoddir blaenoriaeth.

Adran D: Brawd neu chwaer perthnasol

Rhoddir blaenoriaeth uwch i blant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol y mae'r rhiant yn gwneud cais amdani, ar y dyddiad derbyn, nag i rai sydd heb frawd neu chwaer o'r fath. Nodwch, fodd bynnag, nad yw bod a brawd neu chwaer yn yr ysgol yn gwarantu y derbynnir unrhyw blant eraill yn y teulu. Bernir bod brodyr a chwiorydd, boed hanner neu lys frodyr a chwiorydd, neu frodyr a chwiorydd cyfan neu faeth, yn berthnasol os ydynt yn byw ar yr un aelwyd. Nodwch, nad yw brodyr a chwiorydd ym Mlynyddoedd 12 a 13 yn cael eu hystyried yn berthnasol.

Adran Dd: Gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na

Gweision y goron
Ystyrir bod plant Gweision y Goron (gan gynnwys diplomyddion) sy'n symud i Gasnewydd yn bodloni meini prawf preswylwyr ar gyfer yr ysgol ddalgylch berthnasol os anfonir prawf swyddogol drwy'r post gyda'r cais yn datgan:

- dyddiad dychwelyd pendant;
- cadarnhad o gyfeiriad newydd os yw'n bosibl;
- cadarnhad o statws Gwas y Goron.

Aelodau staff y lluoedd arfog
- Mae plant personél Gwasanaethau'r DU yn symud yn aml yn y DU a thramor, yn aml ar fyr rybydd. O ystyried hyn, ar gyfer personél Gwasanaeth y DU, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i feini prawf preswylfa a fodlonwyd (a dyfarnu blaenoriaeth dalgylch) os yw'r cais wedi cynnwys y canlynol, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yng Nghasnewydd, ar y dyddiad perthnasol.
- Tystiolaeth swyddogol o bostio, h.y. hysbysiad postio;
- Copi o Gerdyn Adnabod Gwasanaeth;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bo'n bosibl.

Adran E: Tystiolaeth gefnogi

Prawf preswylio
Mae angen hwn i gefnogi pob cais. Os ydych chi'n byw yng Nghasnewydd mae'n bosibl i'r cyngor edrych ar eich cofnod treth gyngor. Ni ellir gwneud hyn ond gyda chydsyniad rhiant.

Mae'r dystiolaeth hon ond yn ddilys os yw'r oedolyn sy'n gwneud y cais am le mewn ysgol wedi'i enwi ar y cofnod Treth Gyngor.

Gweler y polisi derbyn i ysgolion am restr gynhwysfawr o'r mathau o dystiolaeth a dderbynnir; **www.newport.gov.uk/schooladmissions**.

Noder, ni fydd ymgeiswyr na allant ddarparu'r dystiolaeth berthnasol, foddhaol yn gymwys i gael blaenoriaeth o fewn y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd. Mae hyn yn golygu y bydd eu plentyn yn llai tebygol o allu mynychu ei ddewis ysgol.

Tystiolaeth am ddyddiad geni
Polisi'r cyngor yw bod plant yn cael eu haddysgu yn eu grŵp blwyddyn cronolegol, oni fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol. O'r herwydd, os nad yw'ch plentyn mewn ysgol yng Nghasnewydd ar hyn o bryd, rhaid cefnogi'r cais hwn gyda llungopi o dystysgrif geni'r plentyn, cerdyn meddygol GIG neu basport dilys.

Gwybodaeth bwysig i'w nodi

Sicrhewch eich bod wedi darllen y datganiad cyn arwyddo a rhoi dyddiad ar y ffurflen. Os caiff y cais ei gyflwyno heb lofnod gallai hyn arwain at oedi o ran prosesu eich cais gan gynyddu'r posibilrwydd na fyddwch yn derbyn lle yn eich dewis ysgol.

Byddwn yn ymchwilio i geisiadau twyllodrus ac efallai y caiff cynnig lleoedd ei dynnu os yw ymgeiswyr wedi rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol er mwyn ennill mantais o ran derbyn lle mewn ysgol benodol, fel arfer, na fyddai ganddo hawl iddo.

DEDDF DIOGELU DATA: Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 gan alluogi'r cyngor i gadw a phrosesu data personol. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei defnyddio at y dibenion y darparwyd y wybodaeth ac yn unol â'r Ddeddf yn unig.

At ddibenion prosesu ceisiadau ar gyfer lleoedd ysgol yng Nghasnewydd, efallai y caiff y wybodaeth rydych yn ei rhoi ar y ffurflen gais hon yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill sydd â chyswllt uniongyrchol ag addysg, iechyd a lles plant ysgol gan gynnwys awdurdodau derbyn lleol eraill.

Polisi preifatrwydd: gweler ar-lein yn **www.newport.gov.uk/privacynotice**

Rhestr wirio ar gyfer ymgeiswyr - defnyddiwch y rhestr wirio hon cyn cyflwyno eich cais

☐ **Allech chi gyflwyno'r cais hwn ar lein yn lle ar bapur?**
Os ydych yn gwneud eich cais cyn y dyddiad cau gallech fynd i **www.newport.gov.uk/schooladmissions** a'i gyflwyno ar lein. Un o fuddion hyn yw y byddwch yn gallu gweld eich penderfyniad ar lein ar y dyddiad ynnig.

☐ **Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen gais gywir?**
Mae'r ffurflen gais hon i rieni sy'n gwneud cais am le mewn Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2023 yn un o ysgolioncymunedol Cyngor Dinas Casnewydd yn unig. Os oes arnoch angen ffurflen gais wahanol cysylltwch a'r tim derbyn i ysgolion ar **01633 656656**.

☐ **Ydych chi wedi darllen a deall y nodiadau hyn cyn llenwi eich cais?**
Pe bai angen unrhyw gymorth arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, eglurhad o'r broses derbyn ysgolion, gan gynnwys manylion am ysgol eich dalgylch, neu gopi o'r Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni cysylltwch â'r tîm derbyn ysgolion ar **01633 656656** neu drwy anfon e-bost **school.admissions@newport.gov.uk**

☐ **Oes gennych chi gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn rydych chi'n cyflwyno cais ar ei gyfer?**
Os nac oes, gofynnwch i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn i lenwi'r ffurflen gais a'i harwyddo. Os oes gennych chi gyfrifoldeb rhiant ond nid ydych yn rhiant i'r plentyn ydych chi wedi rhoi'r dystiolaeth berthnasol fel y nodwyd o dan Adran B y nodiadau canllaw?

☐ **Os yw'r plentyn y mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer o dan ofal awdurdod lleol, ydy'r gweithiwr cymdeithasol wedi arwyddo'r cais?**

☐ **Os oedd y plentyn y mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar ei gyfer o dan ofal awdurdod lleol yn y gorffennol, ydych chi wedi rhoi copi o'r dystysgrif mabwysiadu ynghyd â'r cais?**

☐ **Ydych chi'n gwybod beth yw ysgol eich dalgylch?**
Mae modd dod o hyd i fanylion am ysgol eich dalgylch ar wefan y cyngor (**www.newport.gov.uk/schooladmissions**)

☐ **Ydych chi wedi ateb pob cwestiwn yn llawn a hyd y gwyddoch gan gynnwys unrhyw ffactorau meddygol perthnasol?**

☐ **Ydych chi wedi rhoi eich caniatâd i'r tîm derbyn ysgolion gyfeirio at gofnod eich treth y cyngor?**
Os nac ydw, ydych chi wedi cyflwyno tystiolaeth ffisegol dderbyniol fel y nodwyd o dan Adran Dd?

☐ **Ydych chi wedi atodi copi o dystysgrif geni eich plentyn fel y nodwyd o dan Adran Dd?**

☐ **Ydych chi wedi arwyddo'r ffurflen gais?**

☐ **A fydd eich cais yn cael ei dderbyn gan y tîm derbyn ysgolion cyn y dyddiad cau sef 23 Tachwedd 2022?**

Noder mai cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau mai'r **tîm derbyn ysgolion** *– NID eich dewis ysgol, sy'n derbyn eich cais sydd wedi'i llenwi yn ddiogel ac yn amserol. Os ydych chi'n anfon eich cais drwy'r post rydym yn argymell eich bod yn anfon eich ffurflen gan ddefnyddio dosbarthiad a gofnodwyd. Caiff unrhyw geisiadau sy'n cael eu derbyn gan y tîm derbyn ysgolion ar ôl y dyddiad cau sef 27 Tachwedd 2019 neu geisiadau sy'n anghyflawn (h.y. heb dystiolaeth cyfeiriad) ar y dyddiad cau eu hystyried fel ceisiadau hwyr ac efallai y bydd hyn yn cynyddu'r posibilrwydd i chi beidio â derbyn le yn eich dewis ysgol.*